



Cyfarfod Blynyddol Llety Arall 2022

Cynhaliwyd ar 26ain o Fai am 6pm

yn Lle Arall (Llety Arall), 9 Stryd y Plas, Caernarfon gydag opsiwn i ymuno dros Zoom

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol

2021.1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y cyd-gadeiryddion, Trystan Evans a Menna Machreth, yr aelodau i gyfarfod blynyddol Llety Arall – y cyntaf i'w gynnal yn hybrid gydag opsiwn i ymuno yn Lle Arall neu dros Zoom. Ar ôl y cyfarfod, bydd derbyniad caws a gwin yn Lle Arall, ynghyd â chyfle i ymweld â'r lloffttydd a dysgu mwy am gyfleon gwirfoddoli.

Ar ran Bwrdd Llety Arall, diolchwyd i Selwyn Jones am ei wasanaeth fel Cadeirydd y fenter ers ei sefydlu. Bu dyfalbarhad ac ymroddiad Selwyn yn allweddol i lwyddiant y fenter ac rydym yn ddiolchgar iawn i Selwyn am ei arweiniad.

Yn y cyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr yn dilyn y cyfarfod blynyddol, byddwn yn ethol swyddogion newydd y Bwrdd – Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd – yn unol â Rheolau'r Gymdeithas.

Yn bresennol yn Lle Arall:

Menna Machreth

Trystan Evans

Awen Schiavone

Dani Schlick

Rhian George

Selwyn Jones

Dewi Rowlands

Walis George

Janet George

Marika Fusser

Eirian James

Ben Gregory

Angharad Tomos

John Roberts

Rhys Llwyd

Linda Jones

Dafydd Jones

Owain Wyn

Bethan Mair

Rhydian Gwilym

Sylwebyddion ar wahoddiad:

Beca Brown

Emyr Mortimer

Yn bresennol ar Zoom:

Norah Davies

Nici Beech

Mair Vaughan Jones

Meinir Huws

Ann Jones

Philip Newton

Colin Nosworthy

Raymond Kefford

Catrin Dafydd

Heledd Williams

Lewis Jones

Martha John

Alfred S Nathan

Ymddiheuriadau:

Eddie Williams

Emrys Roberts

Elen Huws

Margaret Roberts

Sian Gwenllian

Cynog Dafis

Gwenllian Daniel	Dylan Wyn Jones
A.I. Jones (pleidlais procsi i'r Gadair)	Mair Edwards (pleidlais procsi i'r Gadair)
Dylan Jones	Sioned Huws
Cai Larsen	Dic Thomas (pleidlais procsi i'r Gadair)
Ann Hopcyn	Gwion ac Eleri Hallam
Tony Elliott	Geraint Roberts
Nesta Elliott	

2021.2. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020, 10 Mehefin 2021

Cynigwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod gan Walis George.

Eiliwyd gan Owain Wyn. Pleidleisiodd y Cyfarfod Blynyddol o blaid derbyn y cofnodion.

2021.3. Adroddiad gan Gadeiryddion y Bwrdd a'r Is-bwyllgorau

Pwrpas y cyfarfod yma yw edrych yn ôl ar 2021, ond rydym yn awyddus i'ch diweddarau ynglŷn â datblygiadau 2022 hyd yn hyn hefyd.

Yng nghyfarfod blynyddol 2021, roedd sefyllfa'r pandemig yn dal yn ansicr, ac fel y nodwyd llynedd, ein blaenoriaeth oedd cadw ein gwesteion a chymuned Caernarfon yn ddiogel. Bu Llety Arall yn gosod yr adeilad i un teulu ar y tro yn ystod haf 2020, erbyn haf 2021 roedd hi'n bosib cynyddu'r nifer o westeion yn raddol. Ni agorwyd y gegin yn ystod 2021 i westeion er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r feirws.

Bu'r llety'n brysur iawn ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2021. Cafwyd cymysgedd o westeion oedd yn ymweld o rannau eraill o Gymru a thu hwnt. Roeddem yn falch iawn bod Cwmni Da wedi gwneud defnydd o Llety Arall ar gyfer criwiau cynhyrchu yn ystod yr haf. Croesawyd y grŵp ysgol cyntaf ers dechrau'r pandemig ddiwedd mis Awst, sef Ysgol y Strade, a oedd wedi dod i berfformio mewn recordiad o'r Noson Lawen ar gyfer S4C.

Carem ddiolch i bawb oedd wedi gwirfoddoli i sicrhau ein bod wedi gallu derbyn gwesteion dros yr haf – i bawb oedd yn croesawu, trefnu gyrru dillad i gael eu golchi (mewn car trydan – diolch Anna Jane) ac ateb ymholiadau.

Diolch i Cathy, y lanhawraig, am ei gwasanaeth a'i gwaith trwyadl yn ystod amgylchiadau anodd y pandemig.

Comisiynwyd Cynan Jones i adolygu ei strwythurau fel Bwrdd. Cyflwynodd Cynan adroddiad ar sail cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd gan gynnig argymhellion ynghylch strwythur llywodraethiant a chreu nodau ac amcanion gyda thargedau amser 6 mis, 3 blynedd a 5 mlynedd.

Cafodd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yr her o lunio geiriad gweledigaeth newydd i Llety Arall, a dyma'r paragraff a luniwyd gan aelodau'r Bwrdd:

Menter gymunedol gynaliadwy ym mherchnogaeth y gymuned sy'n cynnig cyfleoedd i bawb flasau iaith, diwylliant a threftadaeth Caernarfon mewn llety o safon, ac yn darparu gofod sy'n hybu a chefnogi gweithgareddau cymunedol. Gweithredu'n barhaus mewn modd cynhwysol sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bod yn ran bwysig o'r economi cylchol lleol.

Hoffem gyflwyno ein Cydlynnydd presennol, Janet George, sy'n gweithio gyda'r Bwrdd ers mis Ionawr. Yn ogystal â sicrhau fod y busnes yn rhedeg o ddydd i ddydd, mae Janet wedi bod yn gweithio ar sawl prosiect gan gynnwys cael trefn ar ein polisiau ac asesiadau risg. Mae Janet yn gobeithio mynd yn ôl i fwynhau ei hymddeoliad mis Medi, ond rydym yn ddiolchgar iawn iddi am y gwaith o roi systemau mewn lle yn barod ar gyfer Cydlynnydd newydd.

Mae gwaith sylweddol wedi digwydd yn 2021 ar y wefan hefyd i sicrhau bod modd i westeion archebu eu llofftidd ar y wefan, gyda diolch i Pete Richardson am y gyflawni'r gwaith ac i Selwyn Jones am gydlynnu.

Is-grŵp Lle Arall: Cyflwynodd Awen Schiavone adroddiad am Lle Arall – gofod cymunedol Llety Arall. Diolch i grant gan Cist Gwynedd, rydym wedi gallu prynu adnoddau sain a chamera er mwyn gallu cynnal digwyddiadau hybrid, ac mae'r rhain newydd gael eu gosod.

Is-grŵp Adeilad: Cyflwynodd Dani Schlick adroddiad am yr adeilad. Agorwyd llofft rhif 8 yn ystod 2021, sef llofft ar lawr gwaelod yr adeilad. Mae mynediad lefel gwastad i'r llofft, yn ogystal â chyfleusterau addas i ddefnyddwyr cadair olwyn. Rydym yn falch iawn o fedru cynnig y cyfleusterau yma i'n gwesteion.

Is-grŵp Marchnata: Cyflwynodd Menna Machreth adroddiad am y gwaith marchnata. Yn 2021, roeddwm yn ddibynnol iawn ar y cyfryngau cymdeithasol i farchnata. Gosodwyd llofftidd ar booking.com am y tro cyntaf ers y pandemig a defnyddwyd platform Independent Hostels. Ar gyfer 2022, rydym yn falch o fod wedi derbyn grant i weithio gyda Ateb Cymru i greu strategaeth gyfathrebu a gwaith brandio, a fydd yn cynnwys gwella dyluniad y wefan. Mae Beca Brown yn gwneud gwaith marchnata ar sail llawrydd ers dechrau 2022.

Is-grŵp Cyllid: Cyflwynodd Trystan Evans adroddiad am yr is-grŵp cyllid.

Pwysleisiwyd nad oes rhaid bod yn aelod o'r Bwrdd i ymuno ag un o'r is-bwyllgorau, felly bod croeso i aelodau gysylltu os oes gennynt ddiddordeb. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r Is-bwyllgor gyfrifoldebau dros faterion fel paratoi a chadw llygaid ar lif arian y busnes, craffu cyfrifon rheoli'r fenter yn ogystal â gosod cyllidebau blynyddol, ac yn sicrhau mae'r strwythur

newydd yn rhoi sicrwydd i ni fod materion ariannol yn cael ei monitro ac yn cael y sylw angenrheidiol. Mae'r is-bwyllgor yn gyfrifol am sicrhau fod y Cyfrifon Blyneddol yn cael eu paratoi gan ein harchwilyr. Rydym ar hyn o bryd mewn trafodaeth efo cwmni Emyr Mortimer i sefydlu system a meddalwedd cyfrifo ar gyfer y fenter, fydd yn y pen draw, yn hwyluso cadw ac adrodd ar y cyfrifon a materion ariannol eraill.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn, oherwydd cyfyngiadau Cofid, ni agorwyd y llety tan wedi Pasg 2021, ac fe wnaethpwyd y penderfyniad i gyfyngu ar y nifer o bobl roeddem yn caniatáu i letya yn yr adeilad ar un adeg, felly ni osodwyd pob llofft. Serch hynny, fe fu misoedd yr haf yn rhai prysur iawn. Roedd hi'n flwyddyn y 'staycation' ac fe lwyddwyd i greu incwm o'r llofftidd o bron i £30,000. Yn ychwanegol i hynny, derbynwyd nifer o grantiau yn ystod y flwyddyn oherwydd Covid, gyda'r pwrpas o ddigolledu busnesau lletygarwch oherwydd y cyfnodau clo, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth hynny.

Erbyn hyn, mae gennym wyth o lofftidd wedi eu cwblhau ac ar gael ar gyfer unigolion, teuluoedd, a grwpiau a gallwn deilwra'r llety ar gyfer anghenion gwesteion ac mae llyfr sylwadau yn canmol y llofftidd a'r croeso. Mae'r Bwrdd wedi gosod targed incwm o £50,000 ar gyfer 2022, ac ar hyn o bryd mae'n ymddangos y byddwn yn cyrraedd y targed.

2021.4. Ethol Cyfarwyddwyr y Bwrdd

Yn ôl Rheolau Llety Arall, gofynnir i 1/3 o aelodau presennol sefyll i lawr. Y cyfarwyddwyr fydd yn sefyll i lawr tro yma fydd Rhian George, Menna Machreth a Dani Schlick.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Llety Arall yn eu hailenwebu i fod yn aelodau o'r Bwrdd.

Eiliwyd y cynnig gan Eirian James. Cytunodd y cyfarfod blyneddol i'r dair gael eu hail-ethol yn ddiwrthwynebiad.

Pwysleisiodd Trystan a Menna fod angen mwy o bobl i ymuno â'r Bwrdd Cyfarwyddwyr o bod croeso i aelodau gysylltu â nhw am hyn.

2021.5. Derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31.12.21

Diolchwyd yn fawr i Gwmni Emyr Mortimer, ein Archwilyr, am y flwyddyn am eu paratoi, a croesawyd Emyr Mortimer o'r cwmni i'r cyfarfod.

Mae Bwrdd Llety Arall yn argymhell eich bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn sy'n diweddu ar y 31ain o Ragfyr 2021.

Derbynwyd sylw gan Owain Wyn yn awgrymu y dylai'r Is-grŵp cyllid ystyried sut y byddai cyrff allanol yn edrych ar gronni arian, fel bod modd cyfeirio at fuddsoddi mewn atgyweirio'r adeilad dros amser. Ymatebwyd fod angen meddwl am hyn wrth i gylch bywyd rhannau o'r adeilad fod angen sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Nododd Emyr Mortimer ei bod hi'n bwysig ystyried faint o arian sydd ei angen wrth gefn ar y busnes, a cytunodd Owain Wyn

fod angen i'r Bwrdd gynllunio ymlaen llaw. Dywedodd Selwyn Jones mai grantiau i gefnogi busnesau dros gyfnod Covid a oedd wedi arwain at arian wedi cronni yn y cyfrif banc - £70,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

Cynnigwyd derbyn y cyfrifon gan Colin Nosworthy.
Eiliwyd gan Selwyn Jones.

Cytunodd y cyfarfod blynyddol y dylid derbyn cyfrifon blynyddol 2021.

2021.6. Llog ar fuddsoddiadau: Cynnig gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Llety Arall i'r Cyfarfod Blynyddol

Am y tro cyntaf, mae'r Bwrdd wedi penderfynnu rhoi cynnig ger eich bron sef ein bod yn talu llog ar fuddsoddiadau o 1% am 2021.

Cynigodd Walis George y gyfradd llog o 1%. Eiliwyd y cynnig gan Colin Nosworthy.

Ail ran y cynnig yw'r dewis a roddir i fuddsoddwyr:

- i) Derbyn y llog, wrth gwrs
- ii) Mae gennych hefyd opsiwn o beidio cymryd y llog, ond ei adael i mewn yn y fenter, felly mae'r arian yn mynd tuag at weithgarwch Llety Arall
- iii) Ond, fel Bwrdd, hoffwn wneud cynnig arall i chi, ein bod yn sefydlu cronfa, fel y gall buddsoddwyr yr opsiwn o dalu eu llog i mewn i'r gronfa a bod y gronfa yn cael eu ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau sy'n gydnaws â gweledigaeth Llety Arall.

Geiriad y cynnig:

'Mae Bwrdd Llety Arall yn cynnig i'w fuddsoddwyr fod llog o 1% yn cael ei dalu ar gyfranddaliadau am y flwyddyn sy'n diweddu ar y 31ain o Ragfyr 2021.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig fod cronfa yn cael ei sefydlu er defnydd sy'n gydnaws â gweledigaeth menter gymunedol Llety Arall.

Rhaid i bob buddsoddwr hysbysu Trysorydd Llety Arall eu bwriad i naill ai:

- a. *Derbyn y llog*
- b. *Peidio â derbyn y llog gyda'r ddealltwriaeth bydd y llog yn mynd tuag at Llety Arall*
- c. *Eu dymuniad i gyfrannu'r llog ar eu buddsoddiad tuag at y gronfa er defnydd sy'n gydnaws â gweledigaeth menter gymunedol Llety Arall.'*

Cynnig gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Llety Arall

Eiliwyd gan Eirian James.

Cytunodd y cyfarfod blynyddol yn unfrydol. Bydd pob aelod yn cael y cyfle i ddewis ar sail y tri opsiwn uchod cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, sef Rhagfyr 31ain, 2022.

2021.7. Unrhyw Fater Arall

Ni godwyd unrhyw fater arall.

Diolchwyd i bawb a ymunodd yn rhithiol ac i bawb a ddaeth i Lle Arall.

Diwedd y cyfarfod.